

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

- Cyfarfod:** Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
- Dyddiad:** Dydd Mercher 24 Ionawr 2024
- Amser:** 10.00 y.b.
- Man Cyfarfod:** Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Councillor: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes

June Jones, Swydd wag, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell

Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Members appointed by Conwy County Borough Council

Councillor: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Members appointed by The Welsh Government

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle,

Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.
2. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes. **3 - 10**
3. **Cofnodion**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6ed Rhagfyr 2023 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. **11 - 69**
4. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir**
Cyflwyno adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. (Copïau yma)
5. **Adroddiadau Diweddarau** **70 - 77**
Cyflwyno adroddiadau diweddarau, er gwybodaeth. (Copïau yma)
6. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd** **78 - 87**
Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma)

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 6 RHAGFYR 2023**

Cynghorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Annwen Hughes, June Jones, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

y Cynghorwyr Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Tracey Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd.

Swyddogion

Iwan Jones, Jonathan Cawley, Iona Roberts, Aled Lloyd, Richard Thomas, Jane Jones, Alys Tatum, Gavin Roberts, Anwen Gaffey.

Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Kim Jones, Ifor Glyn Lloyd; Sarah Hattle, Naomi Luhde-Thompson. Eiliw Owen, Pennaeth Polisi Cynllunio.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- 1) Mynegodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Kim Jones a oedd wedi rhoi'r gorau i'w swydd fel aelod o'r Awdurdod a diolchodd y Cadeirydd iddi am ei gwaith.
- 2) Mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad â'r Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd yn dilyn tân diweddar yn ei eiddo.

2. Datgan Budd

Datganodd y Cynghorydd Jo Nuttall fuddiant personol a rhagfarnus yn eitem 4.1 ar y Rhaglen, o dan baragraffau 10 (2)(c)(i) a 12(1) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau a gadawodd y cyfarfod tra trafodwyd y mater dan sylw.

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

Cyflwynwyd – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. **Diweddariad ar Gydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio (Cydymffurfiaeth) i roi diweddariad i'r Aelodau.

Adroddwyd – Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cynllunio (Cydymffurfiaeth) yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth i'r Aelodau am yr heriau a wynebwyd gan yr adain gydymffurfio dros y blynyddoedd diwethaf a'r sefyllfa bresennol wrth symud ymlaen. Sicrhawyd yr aelodau y byddai swyddogion yn hapus i'w cynorthwyo gydag achosion unigol.

Manteisiodd yr Uwch Swyddog Cynllunio (Cydymffurfiaeth) ar y cyfle i gyflwyno Gavin Roberts i'r Pwyllgor a chadarnhaodd fod gan y gwasanaeth 3 aelod o staff ar hyn o bryd (yn cynrychioli 2.6 cyfwerth ag amser llawn) gyda chyllid o'r 0.4 sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i brynu'r gwasanaeth allanol i mewn. Am bod digon o staff yn cynnal y gwasanaeth bellach, bydd swyddogion yn gallu mynd i'r afael â'r ôl-groniad a sefydlu gweithdrefnau i wella perfformiad i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad interim ac aros am yr asesiad perfformiad blynyddol a gyflwynir ym mis Mehefin 2024.

6. **Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 mewn perthynas ag C3 (Anheddau, a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfeydd), C5 (Anheddau, a ddefnyddir ac eithrio fel unig neu brif breswylfeydd) ac C6 (Gosodiadau tymor byr)**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir i ystyried a ddylid symud ymlaen gyda'r gwaith o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Eryri. Hefyd, ystyried amserlen ddrafft a goblygiadau adnoddau ar raglen waith y tîm polisi cynllunio.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr adroddiad a rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl iddo. Cyflwynodd yr amserlen ddangosol ar gyfer cyflwyno'r Gyfarwydddeb Erthygl 4 a dywedodd fod risg hefyd y gallai etholiad cyffredinol gael effaith ar yr amserlen ymgynghori. Mewn perthynas â'r oedi gyda'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir pe byddai'r Swyddogion Polisi yn gallu, y byddent yn parhau â rhywfaint o waith adolygu CDLIE wrth symud ymlaen â Chyfarwyddyd Erthygl 4.

Yn codi wedi hynny, nododd Aelod y bydd gwaith ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 nawr yn helpu'r adolygiad CDLIE yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. **cefnogi 'mewn egwyddor' yr angen i fwrw ymlaen â'r gwaith paratoi o gyflwyno Cyfarwydddeb Erthygl 4 ym Mharc Cenedlaethol Eryri.**
2. **gan gymryd i ystyriaeth yr adnoddau staffio sydd eu hangen i wneud gwaith paratoi i gyflwyno'r Gyfarwydddeb Erthygl 4 yn effeithiol, cytuno i ohirio'r broses o adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri am y tro.**
3. **parhau â'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i chwilio am adnoddau cynllunio ychwanegol yn y tymor hir er mwyn gweithredu Erthygl 4 yn effeithiol yn Eryri.**

7. **Adroddiadau Diweddarau**

Cyflwynwyd – Adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

8. **Penderfyniadau Dirprwyedig**
Cyflwynwyd a Derbyniwyd – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

9. **Apêl Cynllunio**
Cyflwynwyd a Derbyniwyd – copi o'r penderfyniad apêl a ganlyn:-
Apêl gan Mr. Iolo Povey yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer addasu adeilad allanol presennol yn llety gwyliau a chyfleustodau ar gyfer Tal y Mignedd Uchaf, Nantlle. LL54 6BT. (Caniatawyd yr apêl)

PENDERFYNWYD nodi penderfyniad yr apêl a gofyn i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ysgrifennu at yr Arolygydd er mwyn cael eglurder ynghylch y casgliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20

ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 6 Rhagfyr 2023

Rhif yr Eitem.

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

(1) NP 2/11/52L – Gosod mast telegyfathrebiadau monopol 15m gydag antenâu cysylltiedig, cyfarpar ar y ddaear a seilwaith ategol, Maes Parcio Pen y Pass, Nant Gwynant. LL55 4NU

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r ystyriaethau cynllunio a dywedodd fod y mast at ddefnydd y gwasanaeth brys yn unig. Cadarnhaodd gan fod yr adeilad offer wedi ei leihau i un o ran nifer, y byddai'n diwygio amod 5 trwy ddileu'r ddau bwynt bwled 1af i greu amodau ar eu pen eu hunain a hefyd yn diwygio'r amod i amod cyn-weithredol yn hytrach nac amod cyn dechrau ar y gwaith. Cadarnhaodd y Swyddog Achos ei fod yn aros am gynllun newydd a fyddai hefyd yn rhan o'r cais.

Siarad Cyhoeddus

Anerchodd Mr. Norman Gillan, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar ran yr ymgeisydd a gofynnodd i'r Aelodau ystyried yr hyn a ganlyn:-

- Diolchodd Mr Gillan i'r Pwyllgor am ganiatáu iddo siarad heddiw a dywedodd ei fod yn aelod o'r RTPI ac yn arweinydd cynllunio ar ran EE ar gyflwyno y gwasanaethau cyfathrebu mewn argyfwng newydd sy'n cael ei gyflwyno ar draws yr DU.
- Roedd y cais cynllunio o flaen y pwyllgor mewn lleoliad adnabyddus iawn ac yn ased pwysig i'r Parc, i Gymru ac i'r DU. Ymhellach, roedd mewn ardal sensitif iawn, yn enwedig o ran tirwedd. Roedd hefyd yn ardal brysur iawn lle mae angen i'r gwasanaethau brys allu cyfathrebu â'i gilydd.
- Mae'r cais ar ffurf polyn syml ac antenâu ac offer cysylltiedig ar y tir. Bydd yn darparu signal radio 4G ar gyfer y gwasanaethau brys - yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans, y gwasanaeth tân a bydd hefyd ar gael i dimau achub mynydd. Darparwyd eu rhwydwaith cyfathrebu presennol gan Airwave, rhwydwaith syml llais-yn-unig a oedd bellach wedi dyddio yn y dirwedd dechnolegol newydd - a bydd y rhwydwaith hwn yn cael ei ddiffodd yn fuan. Mae'r Swyddfa Gartref angen i'r gwasanaethau brys symud i rwydwaith sy'n seiliedig ar ddata a fyddai wedyn yn caniatáu newid sylweddol mewn arferion cyfathrebu a gwaith, gan fod pob cerbyd a dyfais, i bob pwrpas, yn dod yn swyddfa symudol neu ystafell reoli.
- Roedd adroddiad y swyddog achos wedi ymdrin â'r cais yn gynhwysfawr, ac felly, o ran asesu polisi cynllunio, nid oedd unrhyw beth i'w ychwanegu nad oedd yr adroddiad eisoes yn ei gwmpasu.
- Fodd bynnag, hoffai bwysleisio bod dyluniad ac ymddangosiad y cyfarpar arfaethedig wedi'i ddatblygu mewn trafodaeth â'r Parc (sydd hefyd â diddordeb yn y tir) i sicrhau bod yr effeithiau gweledol yn cael eu lleihau ac nad yw'r datblygiad yn amharu ar weithrediad y tir, fel maes parcio a chanolfan ymwelwyr. I bob pwrpas bydd y mast yn edrych fel polyn telegraff talach, neu bolyn pŵer. Mae wedi'i leoli naill ai yn, neu'n gyfagos, i'r datblygiad presennol. Mae ei lleoliad penodol ar gopa Pen y Pass yn galluogi signal ar ddwy ochr y copa ar hyd yr A4086 - ni fyddai lleoliadau ffisegol eraill yn caniatáu'r signal eang hwn.
- Gan y bydd yr Aelodau hefyd wedi darllen papurau cefndir, astudiaethau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol a hefyd astudiaethau ecolegol - dangosodd yr astudiaeth dirwedd y gellir defnyddio'r datblygiad arfaethedig gyda mân effeithiau yn unig - cymedrol ar ei waethaf a dim ond mewn golygfeydd lleol y mae'r rhain yn cael eu cynnwys. Gan fod

lleoliad y safle y tu allan i'r safleoedd amgylcheddol dynodedig, ni fydd unrhyw effaith ar y dynodiadau hynny.

- Mae gallu'r gwasanaethau brys i gyfathrebu â'i gilydd yn unrhyw le yn hanfodol bwysig. Yn yr achos hwn, gellir dadlau ei fod yn fwy pwysig oherwydd y 'digwyddiadau' yn amgylchedd mynyddig hawdd ei gyrraedd Yr Wyddfa. Gobeithio nad oedd budd y cyhoedd yn hynny o beth yn destun dadlau ac mae'n hawdd deall y sefyllfa.
- Y gobaith felly yw y bydd aelodau'r Pwyllgor yn cytuno bod unrhyw effeithiau a nodwyd yn fwy na chydbwysu'r manteision i'r gwasanaethau brys ac, yn ehagnach na hynny, y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Gobeithio y gallai hyn ganiatáu i'r cais gael ei gymeradwyo heddiw.

PENDERFYNWYD awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i gymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau priodol fel yr amlinellwyd, ac yn ddarostyngedig y derbynnir cynllun newydd derbyniol.

(2) NP4/19/62A – Cais ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad ar gyfer defnydd cymysg amaethyddol a chadw ceffylau, tir ger Tyrau Duon, Sychnant, Conwy. LL32 8BZ

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir yn fanwl.

Siarad Cyhoeddus

Anerchodd Tanya McCormack, yr ymgeisydd, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gofynnodd i'r Aelodau ystyried y canlynol:-

- Tanya McCormack oedd yr ymgeisydd a chafodd ei geni a'i magu yn Llanfihangel Glyn Myfyr. Prynodd y llain hwn o dir yn 2018 ac ar hyn o bryd roedd hi'n byw yn Rhuthun ond symudodd i Lysfaen ym mis Ionawr.
- Roedd y cais ar gyfer dibenion defnydd cymysg sydd a wnelo ceffylau ac ysgubor amaethyddol, sy'n disodli'r ysgubor bresennol ar y tir, a gafodd ei dinistrio yn storm Arwen ym mis Tachwedd 2021.
- Roedd yr ysgubor ar waelod y bryn yn agos at y coed helyg a choed cyll aeddfed sy'n tyfu yno. Mae'n meddiannu'r un safle â'r ysgubor flaenorol ac nid oedd ar y nenlinell.
- Fe'i ffiniwyd gan linell o goed i'r gorllewin sy'n rhedeg ar hyd ochr cyfan yr eiddo. I'r de mae'r tir wedi'i ffinio â gwrych sy'n rhedeg ochr yn ochr â ffordd Bwlch Sychnant.
- Bydd yr ymgeisydd yn plannu rhywfaint ychwaneg o goed i'r de i ychwanegu uchder ac i arddangos yr adeilad ymhellach. Bydd y coed yn cynnwys rhywogaethau cynhenid cymysg, yn bennaf bedw gyda helyg, gwern a choed castan.
- Bydd twmpath uwch gyda gwaith plannu tua'r gogledd yn darparu sgriniad am 6 metr, - ar gyfer bioamrywiaeth ac yn gysgod rhag y gwynt. Bydd y coed hyn yn cynnwys bedw arian, i adleisio'r bedw arian sy'n tyfu ar Fynydd y Dref.
- Uwchben yr ysgubor mae'r ymgeisydd wedi plannu gwrych i'r dwyrain ar hyd llinell ffens y berllan yn 2019/20. Mae hyn ar y llethr uwchben yr ysgubor ac mae'n cynnwys cyll, coed afal bach surion a gwern.
- Mae'r fynedfa i'r cae ar ben yr allt. Mae lle i dynnu i mewn oddi ar ffordd Bwlch Sychnant a lle i gar a threlar yrru'n ddiogel oddi ar y ffordd cyn agor y giât. Bydd yr ymgeisydd yn cadw'r fynedfa hanesyddol hon. Mae hon yn ffordd B gyda therfyn cyflymder o 40mya.
- Mae'r ysgubor yn strwythur ffrâm bren traddodiadol, wedi'i wneud gyda llarwydd wedi'i dyfu'n lleol a'i felinio gyda phegiau derw ac roedd at ddefnydd bridio.

PENDERFYNWYD rhoi caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

- (3) NP5 / 54 / 585 - Gosod tŵr dellt uchel 50m yn cefnogi antenâu 6, 4 desglau trawsgluro, a gosod 2 gwpwrdd offer seiliedig ar y ddaear, cabinet 1 metr, a datblygiad ategol gan gynnwys lleoli generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, ffurfio man caled, ffurfio trac mynediad newydd, ac adeiladu compownd â ffens 1.1m o uchder, Tir yn Nhŷ Newydd-y-Mynydd, Rhydymain.
Adroddodd - Dywedodd y Swyddog Achos bod yr ymgeiswyr wedi gofyn am ohirio'r cais.
PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn ôl gofyniad yr ymgeisydd tan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad nesaf ar 24 Ionawr 2024.
- (4) NP5/58/LB459A – Trosi, ymestyn a newid defnydd adeiladau allanol i greu 4 annedd marchnad agored newydd, ynghyd â ffurfio lôn fynediad newydd, waliau terfyn newydd a thirlunio cysylltiedig, Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy. LL44 2RQ
Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir ac adroddodd ar gywiriad i'r adroddiad o ran nifer yr ystafelloedd gwely a gynigir. Adroddwyd am wrthwynebiadau Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont.
Siarad cyhoeddus
Anerchodd Charles Mador, y pensaer, yr asiant cynllunio, y datblygwr a pherchennog y safle, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gofynnodd i'r Aelodau ystyried y canlynol:-
- Dywedodd yr ymgeisydd fod y Swyddog Achos wedi darparu adroddiad da ac nad oedd llawer yr oedd am ychwanegu ato.
 - Dywedodd mai ef oedd y pensaer a hefyd perchennog yr adeiladau. Fe'u gwelodd am y tro cyntaf tua 4 blynedd yn ôl ac roedd yn meddwl eu bod yn brydferth ac y gallai eu hachub rhag cwmpo fel prosiect olaf cyn ymddeol. Nid oeddent yn cael eu defnyddio ers degawdau ac wedi bod ar y farchnad ers blyneddau. O ran cefndir, roedd wedi gwneud datblygiad tebyg iawn yn Arthog a gwblhawyd tua 10 mlynedd yn ôl. Prynodd amrywiaeth o adeiladau amaethyddol rhestredig a oedd mewn cyflwr adfeiliedig ac roedd yn benderfynol o'u hachub rhag cwmpo. Dyluniodd y cynllun, cael caniatâd cynllunio, ariannu'r ailddatblygiad a gwerthu'r unedau. Mae saith cartref yno erbyn hyn ac mae gan yr adeiladau amaethyddol hardd ddyfodol diogel a oedd yn wedi rhoi llawer o foddhad.
 - Yn debyg i Arthog roedd wedi cysylltu â'r Awdurdod gyda chynllun manwl gan gynnwys y manylion allweddol trwy 2 gais ffurfiol am gyngor cyn cyflwyno'r ceisiadau. Cytunodd ar y cynllun yn fanwl gyda'r Pensaer Cadwraeth a'r Swyddog Cynllunio a dim ond pan oedd wedi derbyn cadarnhad yn ysgrifenedig, fod y cynllun yn gwbl dderbyniol a bod nifer yr eitemau manylion allweddol yn cael eu cytuno, a aeth ati i brynu'r safle.
 - Aeth yr ymgeisydd i'r afael â'r taliadau swm cymudedig gan mai hwn oedd y prif fater. Un o'r pwyntiau allweddol yn y cyngor cyn cyflwyno ceisiadau oedd y taliadau swm cymudol oherwydd fod pethau bob amser yn dynn iawn yn ariannol. Roedd y Pensaer Cadwraeth wedi cytuno, yn ysgrifenedig, oherwydd y budd cymunedol wrth achub yr adeiladau hyn pe bai'r gost o adfer a throsi yn rhy uchel, byddai'r symiau cymudol yn cael eu hepgor. Yn y pen draw, gofynnwyd am astudiaeth ddichonoldeb lawn gan yr Awdurdod. Cyflogodd yr ymgeisydd gwmni o syrfewyr meintiau i gynnal yr astudiaeth hon, a dderbyniwyd, a hepgorwyd y swm cymudol.
 - Roedd yr ymgeisydd yn cydnabod pa mor bwysig oedd y symiau a gymudir i'r gymuned, ond yn yr achos hwn roedd cost cyflawni'r gwaith yn uchel gyda diffyg sylweddol na allai gefnogi'r taliadau hyn ac roedd yr ymgeisydd yn ddiolchgar am y penderfyniad i'w hepgor.

- Pe bai caniatâd cynllunio wedi'i roi pan gwblhaodd yr ymgeisydd am y tro cyntaf yn y cam cyngor cyn cyflwyno cais, roedd yn disgwyl y byddai'r prosiect wedi'i orffen erbyn hyn, ond yn hytrach roedd yn dal i ofyn am ganiatâd cynllunio.
- Ers hynny mae'r sefyllfa wedi gwaethygu gyda Brexit a Covid yn arwain at gynnydd mewn costau adeiladu. Yn ogystal â chwyddiant, roedd y prosiect wedi dioddef o drosiant Penseiri Cadwraeth o fewn yr adran, gyda phob swyddog newydd yn gosod costau ychwanegol ar y prosiect ac wedi anwybyddu'r hyn a gytunwyd ar y cam cyngor cyn-cyflwyno cais i raddau helaeth. Roedd hyn yn ddrud i'r ymgeisydd ac yn niweidiol i'r prosiect.
- Byddai cael caniatâd cynllunio ac ildio'r swm cymudo yn gam sylweddol ar y daith i achub yr adeiladau hyn.

PENDERFYNWYD yn ddarostyngedig y diwygir amod 17 ac y cyfyngir cymeradwyaeth i ddefnyddio Dosbarth C3, i **roi** caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

- (5) NP5/76/323R – Newid defnydd tir ar gyfer creu cyfleuster llety byw oddi ar y safle dros dro hyd at fis Rhagfyr 2025 a newidiadau i fynediad cerbydau presennol oddi ar yr A487, sy'n gysylltiedig â phrosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri, creu ffordd fynediad fewnol dros dro ynghyd â gwaith cysylltiedig, tir ym Mlaen Cefn, Penrhyndeudraeth. LL48 6NA

Adroddwyd – cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir.

Siarad cyhoeddus

Anerchodd Sioned Edwards, yr Asiant, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gofynnodd i'r Aelodau ystyried y canlynol:-

- Diolchodd yr Asiant i'r Pwyllgor am y cyfle i wneud sylwadau ar y cais hwn ar dir ger BlaenCefn ym Mhenrhyndeudraeth. Cyflwynwyd y cais gan Hochtief (UK) Construction Ltd sydd wedi cael eu penodi fel contractwyr arbenigol gan y Grid Cenedlaethol i ddylunio ac adeiladu'r twnnel o dan aber Afon Dwryd fel rhan o brosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri (DEW). Bwriad y prosiect oedd lleihau effaith weledol llinellau grid sy'n rhedeg ar draws aber Afon Dwryd o Minffordd i Landecwyn. Bydd yn cael ei gyflawni trwy dynnu rhan o'r gwifrennau uwchben a chladdu ceblau trydan mewn twnnel tanddaearol.
- Roedd y cais o flaen yr Aelodau yn ymwneud â darparu llety dros dro ar gyfer hyd at 100 o weithwyr Hochtief am gyfnod dros dro tan fis Rhagfyr 2025.
- Er mwyn darparu llety addas a digonol i'r gweithwyr drwy gydol y flwyddyn heb effeithio ar argaeledd llety i dwristiaid, ac i sicrhau llety i weithwyr arbenigol ar fyr rybudd, mae Hochtief yn bwriadu darparu llety dros dro gyda chyfleusterau ategol ar y safle ger Blaen Cefn.
- Mae ymchwil helaeth wedi'i wneud cyn dewis y safle hwn gan gynnwys safleoedd Cookes ym Mhenrhyndeudraeth a safle ger Ffordd Penamser, Porthmadog ond cafodd y rhain eu diystyru o ganlyniad i berygl llifogydd.
- Bydd y gweithwyr yn y llety dros dro yn arbenigwyr a bydd angen iddynt fyw oddi cartref am gyfnod o amser i weithio ar y twnnel. Byddant yn defnyddio'r llety o amgylch eu sifftiau gwaith a byddant yn symud ymlaen ac oddi ar y safle mewn bws mini sy'n rhedeg fel 'bws gwennol'.
- Bydd newidiadau i'r fynedfa gerbydau bresennol a darperir mynediad ar droed i gysylltu â'r llwybr cyhoeddus sy'n cysylltu'r safle â Phenrhyndeudraeth. Bydd y safle'n cael ei dirlunio ymhellach, a bydd coed yn cael eu gwarchod i sicrhau na fydd yr unedau i'w gweld o'r lôn gyfagos.
- Ar ôl i'r defnydd o'r safle ddod i ben, byddai'n cael ei adfer a'i dirlunio gyda'r holl seilwaith yn cael ei symud ymaith fel amod.
- Mae Hochtief wedi ymgysylltu â'r gymuned leol ynglŷn â'r cynnig ac mae trafodaethau manwl a helaeth wedi bod gydag ymgynghorwyr statudol i sicrhau

bod y cynnig yn dderbyniol o ran ystyriaethau technegol fel yr amlygwyd yn adroddiad y swyddog.

- Fel rhan o ymrwymiad Hochtief i'r Gymraeg, maent yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o fewn eu gweithlu fel rhan o'u polisi Iaith Gymraeg. Bydd y datblygiad yn cynnig cefnogaeth i fusnesau lleol ac mae Hochtief wedi cynnal digwyddiad "cwrdd â'r prynwr" er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau lleol.
- Y gobaith oedd y gallai'r pwyllgor gefnogi'r cais a'i gymeradwyo heddiw.

PENDERFYNWYD yn ddarostyngedig y cynhwysir yr amod ychwanegol ar gyfer rheoli'r Ffromlys Chwarennog, **rhoi** caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

7. Adroddiadau Diweddar

(1) Cytundebau Adran 106 – **Er gwybodaeth Penderfynwyd nodi'r adroddiad.**

(2) Ceisiadau Heb Eu Penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio – **Er gwybodaeth**

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

<u>Rhif Eitem / Item No.</u>	<u>Cyfeirnod / Reference No.</u>	<u>Disgrifiad / Description.</u>	<u>Swyddog Achos / Case Officer</u>
1.	NP4/11/393B	Trosi ac ymestyn adeilad allanol i greu uned wyliau hunain arlwyo tymor byr, creu trac mynediad, newidiadau i fynedfa cerbydau a gwaith cysylltiedig (Ail gyflwyniad), Adeilad allanol yn Craig Glanconwy, Betws y Coed. / Conversion and extension of outbuilding to form short term self-catering holiday unit, creation of parking bay, alterations to vehicular access and associated works (Re-submission), Outbuilding at Craig Glanconwy, Betws y Coed.	Richard Thomas
2.	NP5/50/532F	Newid drysau allanol a ffenestri i flaen siopau am ddrysau agor awtomatig newydd, gosod hysbysfyrddau ar flaen yr adeilad, adnewyddu rampiau allanol a gosod paneli solar PV, Ganolfan Gwybodaeth Ymwelwyr, Y Cei, Aberdyfi. / Change external doors and glazing to shop fronts for new automatic opening doors, install notice boards on the front of the building, refurbish external ramps and installation of solar PV panels, Tourist Information Centre, The Wharf, Aberdyfi.	David Pryce Jones
3.	NP5/57/LB587H	Tynnu'r ffens derfyn bren bresennol a chodi wal derfyn garreg newydd 1 metr o uchder rhwng Gwesty Plas Isa a Gwesty'r Golden Lion, ynghyd â gosod giât bren newydd rhwng y pileri carreg presennol yn fynedfa gefn i Gwesty Plas Isa o maes parcio Marian Mawr, Plas Isaf, Lion Street, Dolgellau. / Removal of the existing timber boundary fence and erection of new 1 metre high stone boundary wall between Plas Isa Guesthouse and the Golden Lion Hotel, together with the installation of a new wooden gate between the existing stone pillars at the rear entrance to Plas Isa Guesthouse from the Marian Mawr car park, Plas Isaf, Lion Street, Dolgellau.	David Pryce Jones

4.	NP5/57/LB587J	<p>Caniatâd Adeilad Rhestredig i dynnu'r ffens derfyn bren bresennol a chodi wal derfyn garreg newydd 1 metr o uchder rhwgen Gwesty Plas Isa a Gwesty'r Golden Lion, ynghyd â gosod giât bren newydd rhwng y pileri carreg presennol yn fynedfa gefn i Gwesty Plas Isa o maes parcio Marian Mawr, Plas Isaf, Lion Street, Dolgellau. / Listed Building Consent for the removal of the existing timber boundary fence and erection of new 1 metre high stone boundary wall between Plas Isa Guesthouse and the Golden Lion Hotel, together with the installation of a new wooden gate between the existing stone pillars at the rear entrance to Plas Isa Guesthouse from the Marian Mawr car park, Plas Isaf, Lion Street, Dolgellau.</p>	David Pryce Jones
5.	NP5/73/LB425D	<p><u>Caniatâd Adeilad Rhestredig am waith atgyweirio ar y strwythurau bwtres a pharapet presennol ar ddrychiad ochr y prif eiddo a chynnal atgyweiriadau ar yr allfeydd dŵr glaw, Plas Tan-y-Bwlch, Maentwrog / Listed Building Consent for repairs to the existing buttress and parapet structures on the side elevation of the main property and carrying out repairs to the rainwater outlets, Plas Tan-y-Bwlch, Maentwrog.</u></p>	Iona Roberts

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
– Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.**

Dyddiad: 24-Ion-2024

Cais Rhif: NP4/11/393B

Dyddiad Cofrestru: 22/08/23

Cymuned: Betws y Coed, Betws-y-Coed

Cyfeirnod Grid: 279610 354846

Swyddog Achos: Mr Richard Thomas

Lleoliad:

Adeilad allanol yn Craig Glanconwy, Betws y Coed.

Ymgeisydd:

Mr. Sean Taylor,
Zip World Ltd.
Base Camp
Denbigh Street
Llanrwst
Conwy
LL26 0LL

Disgrifiad:

Trosi ac ymestyn adeilad allanol i greu uned wyliau hunain arlwygo tymor byr, creu trac mynediad, newidiadau i fynedfa cerbydau a gwaith cysylltiedig (Ail gyflwyniad)

Addasu ac ymestyn adeilad allanol i ffurfio uned wyliau hunanarlwygo tymor byr, creu trac mynediad, newidiadau i'r fynedfa i gerbydau a gwaith cysylltiedig (Ail-gyflwyniad)

Crynodeb o'r Argymhelliad:

GWRTHOD caniatâd, am y rhesymau a ganlyn:

- Cyflwr adfeiliedig yr adeilad allanol.

Rheswm/Rhesymau yr Adroddwyd am y Cais i'r Pwyllgor:

Ar gais Aelod etholedig o'r Pwyllgor hwn.

Dynodiadau / Cyfyngiadau Tir:

Cefn Gwlad Agored
Agosrwydd at Barth Perygl Llifogydd C2
Coetir Hynafol

Disgrifiad o'r Safle:

Mae'r safle sy'n destun y cais hwn wedi ei leoli oddi ar isffordd sirol 2km (1.2 milltir) i'r de o Fetws y Coed. Wedi'i leoli o fewn ardal goediog sydd wedi'i gwahanu oddi wrth y tir pori agored cyfagos gan lednant fechan ddiennw Afon Conwy.

Nodweddir y tir yn union o amgylch olion yr adeilad hwn gan goetir collddail gyda chreigiau agored a gorchudd daear o gerrig.

Datblygiad Arfaethedig:

Mae'r cais hwn yn cynnig addasu, adfer ac ymestyn yr adeilad adfeiliedig i ddarparu ar gyfer uned hunanarlwyo tymor byr un ystafell wely i dwristiaid. Mewn cysylltiad â'r addasiad mae'r cais yn dangos lle parcio oddi ar y ffordd fach gyda mynediad i gerddwyr yn unig o'r maes parcio i'r uned llety arfaethedig.

Yn ogystal, mae'r cais hwn yn dangos ardal helaeth o wella bioamrywiaeth trwy blannu bloc o goed collddail.

Polisiau Cynllunio Perthnasol:

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLIE)

- SP C: Strategaeth Datblygu Gofodol
- DP1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
- SPD: Yr Amgylchedd Naturiol
- SPFF: Amgylchedd Hanesyddol
- DP9: Trosi a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig

Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned	Dim gwrthwynebiadau
Cyfoeth Cenedlaethol Cymru	Amodau a awgrymir
Dŵr Cymru	Cyngor wedi ei ddarparu
Awdurdod Prifffyrdd Conwy	Amodau a awgrymir
Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd	Sylwadau wedi'u derbyn ac amod wedi'i awgrymu
Ecolegydd APCE	Dim gwrthwynebiadau, amod wedi ei awgrymu
Swyddog Coed APCE	Cyngor wedi ei ddarparu

Ymateb i Gyhoeddusrwydd:

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais trwy osod rhybuddion safle a llythyrau hysbysu cymdogion.

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau o ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd hwn.

Asesiad:

1. Egwyddor Datblygu

- 1.1 Rhoddir ystyriaeth gychwynnol i gynnig o'r natur hwn gyda pholisi C CDLIE sy'n datgan ym maen prawf xviii y gellir cefnogi trosi adeiladau gwledig os yw'r cynnig i gefnogi defnydd economaidd neu faen prawf xix ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.
- 1.2 Yn yr achos hwn mae'r ymgeisydd yn dibynnu ar feini prawf xviii i'r cais hwn gael ei ystyried yn ffafriol.
- 1.3 Mae polisi CDLIE DP9 yn ymhelaethu ar hyn trwy ddatgan y gellir ystyried trosi adeiladau gwledig segur tu allan i unrhyw ffin datblygu tai yn ffafriol ar gyfer llety twristiaid os yw'n rhan o gynllun menter wledig.
- 1.4 Yn y cyd-destun hwn diffinnir cynllun menter wledig fel rhan o gynllun arallgyfeirio fferm neu mewn cysylltiad ag atyniad twristiaeth presennol neu newydd. Yn yr achos hwn yr ymgeiswyr yw gweithredwyr atyniad twristiaeth ZipWorld Fforest tua 3.2km (2 filltir) i'r gogledd ar hyd yr A470(T) ac maent yn gweld yr uned adeiladu hon sydd wedi'i throsi fel darpar lety i'w cleientiaid.
- 1.5 O dan y telerau polisi eang hyn, roedd swyddogion o'r farn bod yr adeilad yn ddigon agos i fod yn uniongyrchol gysylltiedig â safle Zip World Fforest, ac felly gellir ystyried yn ffafriol addasu ac ymestyn yr adeilad allanol gwledig hwn os bodlonir holl feini prawf polisi CDLIE 9.
- 1.6 O bwys yn yr achos hwn mae meini prawf polisi 9 CDLIE i, ii, iii, a v. Adolygir y meini prawf hyn isod.
- 1.7 Mae dau gais cynllunio blaenorol wedi cael eu hystyried gan yr Awdurdod hwn ar gyfer ceisiadau tebyg iawn ar gyfer yr adeilad hwn i'r hyn sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Gwrthodwyd caniatâd i'r ddau gais hyn, yn gyntaf ym mis Tachwedd 2021 a'r rheswm pennaf oedd:

Oherwydd bod yr adeilad allanol gwledig hwn yn adfail heb strwythur na gorchudd to a bod angen sefydlu trac mynediad newydd i gerbydau, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â Pholisi 9 Cynllun Datblygu Lleol Eryri.

1.8 A'r ail gais ym mis Chwefror 2023:

Oherwydd bod yr adeilad allanol gwledig hwn mewn cyflwr adfeiliedig heb unrhyw strwythur to na gorchudd a bod angen sefydlu trac mynediad newydd i gerbydau, maes parcio a man troi, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â Pholisïau CDLIE DP1 a DP9.

1.9 Mynegwyd y gwrthwynebiad polisi gor-redol a sylfaenol hwn trwy lythyr at yr ymgeisydd ar bedwar achlysur gwahanol yn ystod y trafodaethau cyn cyflwyno cais ac mewn llythyrau ymateb swyddogion dyddiedig 17/07/2019, 12/05/2020, 16/07/2020 a 30/09/ 2020 i'r ymholiad cyn cyflwyno cais ffurfiol sy'n rhedeg drwy 2019 a 2020.

1.10 Mae'r ymgeisydd wedi methu â goresgyn y gwrthwynebiadau polisi clir a fynegwyd ar bedwar achlysur gwahanol yn y cyfnod cyn cyflwyno cais trwy gydol 2019 a 2020 a phan y gwrthodwyd dau gais cynllunio yn 2021 a 2023.

1.11 Er bod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r rhesymau eraill dros wrthod sydd ynghlwm wrth hysbysiadau penderfyniad 2021 a 2023 a bellach wedi'u goresgyn, ni oresgynnwyd y rheswm sylfaenol a phwysicaf dros wrthod.

2. Asesiad Cynllunio

2.1 Mae polisi CDLIE 9 ym maen prawf i yn nodi, er mwyn iddo gael ei ystyried yn ffafriol, dylai:

'Adeilad fod o adeiladwaith parhaol a sylweddol, o ffurf a chymeriad traddodiadol ac mae iddo werth pensaernïol sy'n deilwng o'i gadw.'

2.2 Mae gweddillion yr adeilad allanol bychan hwn o wneuthuriad carreg sy'n datgelu adeilad adfeiliedig gydag olion dau dalcen yn sefyll ac un wal heb unrhyw strwythur na gorchudd to. Er ei fod o ffurf a chymeriad traddodiadol nid yw'r adeilad hwn yn Rhestredig, ac nid yw ychwaith wedi'i nodi fel un o ansawdd pensaernïol lleol sy'n deilwng o'i gadw gan yr Awdurdod hwn. Yn ogystal, ni ystyrir olion yr hwn fel adeilad parhaol na sylweddol.

2.3 Mae paragraff 4.29 o'r CDLIE yn rhoi arweiniad ychwanegol ar y mater hwn ac yn diffinio 'parhaol a sylweddol' fel:

*'adeilad gyda waliau adeileddol sy'n amlwg yn gadarn hyd at ac yn cynnwys lefel y bondo, **wedi'i orchuddio â tho yn gyfan gwbl.***

2.4 O ganlyniad ac oherwydd nad oes gan yr adeilad hwn do neu strwythur to **nid yw'r cais hwn yn bodloni maen prawf i.**

2.5 Mae maen prawf ii yn nodi:

'Mae modd addasu'r adeilad heb fod angen ailadeiladu neu estyniad sylweddol a fyddai'n niweidio ei gymeriad presennol.'

2.6 Gyda'r angen am waith adfer ar weddill y waliau sy'n dal i sefyll a strwythur to cwbl newydd a gorchudd ynghyd ag estyniad o'r raddfa a gynigir ystyrir nad yw'r bwriad hwn **yn bodloni maen prawf ii.**

2.7 Mae maen prawf iii yn nodi:

'Mae'r holl waith allanol gan gynnwys gorffeniadau a therfynau eiddo yn gydnaws â chymeriad yr adeilad, arddull a deunyddiau adeiladu lleol ac nid ydynt yn niweidio cymeriad unrhyw grŵp o adeiladau cyfagos.'

2.8 Mae'r ymgeisydd wedi cynnig estyniad unllawr i'r adeilad hwn a fyddai'n cynyddu ei ôl troed o 50sqm i 80msgw. Bydd yr estyniad fel y dangosir yn caniatáu ar gyfer ystafell wely ac ystafell gawod ynghlwm wrth ystafell fyw cynllun agored a chegin yn y strwythur presennol. Dangosir bod gan yr estyniad arfaethedig orffeniad o waliau wedi'u gorchuddio â phren o dan do llechi mwynau naturiol.

2.9 Nid oes unrhyw wrthwynebiad penodol i'r ymagwedd hon ac ni fyddai'n gwrthdaro â pholisi.

2.10 I gefnogi'r cynnig hwn mae'r ymgeiswyr wedi cyflwyno adroddiad strwythurol byr sy'n dod i'r casgliad hynny

'...nid oedd unrhyw gloddiadau prawf ar gael i'w harchwilio ar adeg yr ymweliad ac mae arwyddion o graig yn brigo i'r wyneb ger yr adeilad a fyddai'n awgrymu bod waliau'r adeilad wedi'u gosod ar y creigwely neu'n agos ato. Mae hyn hefyd yn gyson â chyflwr strwythurol da cyffredinol y waliau.

Ni fydd waliau'r adeilad hwn yn cael unrhyw anhawster i gynnal llwythi to nac unrhyw lwythi eraill sy'n deillio o'r gwaith adfer arfaethedig ac ni fydd angen eu tanategu.'

2.11 Er mwyn gwirio sefydlogrwydd strwythurol gweddillion yr adeilad hwn, cyflogodd yr Awdurdod hwn wasanaeth Peiriannydd Strwythurol cymwysedig a ymgymerodd ag adroddiad strwythurol annibynnol gan nodi:

DRYCHIAD DEHEUOL.

Mae'r wal hon yn ymddangos bron yn gyfan.

Mae'r tir rhwng y drychiad hwn a'r nant yn dirlawn a gellir gweld dŵr yn llifo ar yr wyneb.

Mae yna nifer o goed mawr yn agos i'r adeilad a rhai ohonynt yn ymddangos yn farw.

DRYCHIAD GORLLEWINOL.

Mae'r rhan fwyaf o'r wal hon yn gyfan ond mae ardal ganolog yr ymddengys ei bod wedi symud i lawr yn fertigol ac yn ochrol.

Mae dwy dderwen fawr yn agos i'r adeilad, Mesurwyd y pellteroedd o'r adeilad tua 4 a 5 metr o wyneb yr adeilad.

Mae yna hefyd yr hyn sy'n ymddangos fel gwreiddiau ar y wyneb yn ymestyn ger yr adeilad.

DRYCHIAD GOGLEDDOL.

Yn y bôn mae'r drychiad hwn yn cynnwys pennau'r waliau talcen a rhan ganolog o'r wal. Mae pen ochr dde'r rhan hon o'r wal wedi symud yr hyn sy'n ymddangos yn ochrol ac yn fertigol. Mae'r wal 1.0 metr wrth 0.8 metr uchaf wedi'i golli. Mae'n ymddangos bod y rhan ganolog hon o'r wal hefyd ychydig allan o blwm.

Mae hwn yn frigiad carreg enfawr yn eithaf dos i'r drychiad hwn. Tybiaf y gallai'r garreg ymestyn yn weddol agos neu islaw'r adeilad achosi rhai problemau i sylfeini'r estyniad newydd.

DRYCHIAD DWYREINIOL.

Mae ardal eithaf mawr o'r drychiad hwn wedi'i golli ar lefel uchel, o bosibl oherwydd bod tulathau'r to yn cwmpo.

Ymddengys hefyd y gallai fod corn simnai wedi'i greu o fewn trwch y wal ar y drychiad hwn.

Mae coeden dderw fawr iawn 2.9 metr o'r wal dalcen hon.

Ymddengys hefyd fod gwreiddiau'r goeden hon wedi ymestyn tuag at yr adeilad a gall fod o fewn neu o dan waliau'r adeilad hwn.

2.12 Wrth gloi, mae'r peiriannydd strwythurol annibynnol wedi datgan:

y bwriad yw ymestyn yr adeilad presennol gydag estyniad ar y drychiad gogleddol a all olygu cael gwared ar gyfeintiau eithaf mawr o graig i gyrraedd y lefelau gofynnol. Gall y gweithrediadau hyn achosi problemau gan arwain at goed ansefydlog.

Dylid cloddio nifer o byllau prawf i gadarnhau dyfnder unrhyw graig/carreg.

Fel y dywedwyd mae hefyd nifer o goed mawr ar y drychiadau coed eraill a nodwyd fel coed derw gyda tho yn ymestyn ar yr wyneb yn agos i'r adeilad.

Mae coed derw yn cael eu dosbarthu fel coed Llydanddail sy'n ymofyn llawer o ddŵr ac o ran uchder coeden aeddfed, gan dybio eu bod yn Dderw Seisnig o 20 metr. Felly mae'r parth dylanwad yn 1.25 gwaith 2-0 sy'n hafal i 25 metr. Mae'n bosibl felly bod gwreiddiau'r coed hyn wedi treiddio o dan yr adeilad presennol.

Gallai tynnu unrhyw bridd haen uchaf o ffosydd ar gyfer sylfeini a phibellau draenio, a storio deunyddiau i gyd gael effaith ar y coed hyn gan arwain at ansefydlogrwydd posibl.

Yr wyf hefyd yn bryderus ynghylch y symudiadau a nodwyd i rannau o'r waliau presennol ar y drychiadau gogleddol a gorllewinol a allai fod wedi'u hachosi gan wreiddiau'n pydru neu fod y sylfaen wedi'i seilio ar amodau tir cymysg.

Mae amheuaeth bod y wal bresennol wedi'i seilio ar lefel y ddaear ac felly'n fwy tueddol o symud yn sgil symudiad gwreiddiau coed ac unrhyw waith cloddio yn y dyfodol. I gloi, credaf yn bersonol y byddai'n annoeth bwrw ymlaen â'r prosiect hwn heb gael rhagor o wybodaeth megis:-

- 1. Gwir lefel y graig o amgylch yr adeilad presennol a'r adeilad arfaethedig.*
- 2. Lledaeniad y gwreiddiau o'r coed presennol.*
- 3. Ansadrwydd posibl y coed o fewn pellter aeddfedrwydd y coed o'r adeilad.*
- 4. Ansadrwydd posibl y coed a achosir gan y gwaith arfaethedig.*
- 5. A yw'r coed yn cael eu diogelu gan Orchymyn Cadw Coed.*
- 6. Sut bydd y lloriau mewnol yn cael eu hadeiladu gan danseilio'r waliau sychion presennol.*

2.13 Er gwaethaf ail-greu strwythur y to yn gyfan gwbl a'r gorchudd mae'r Peiriannydd Strwythurol wedi nodi bod angen ail-greu rhannau o'r drychiad gogleddol, sy'n ddi-blwm ac wedi colli hyd at 1m o uchder. Mae'r drychiad dwyreiniol wedi colli rhan sylweddol ar ben y talcen a bydd angen ei ailadeiladu. Mae hefyd effaith posib y gall y coed derw mawr fod wedi ei gael ar sylfeini'r adeilad, nad yw'r ymgeisydd wedi ymchwilio iddo.

2.14 Ar sail yr adroddiad strwythurol annibynnol hwn, mae swyddogion yr Awdurdod hwn o'r farn nad yw olion yr adeilad hwn o adeiladwaith parhaol a sylweddol ac na ellir ei addasu heb yr angen am waith ailadeiladu sylweddol.

3. Materion Eraill

- 3.1 Mae'r cae agored cyfagos lle cynigir trac mynediad i gerddwyr yn unig ar ei draws yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer pori, mae'n laswelltir wedi'i wella ac fe'i defnyddiwyd fel compownd adeiladu ar gyfer y gwelliannau i gefnffordd yr A470 gerllaw rai blynyddoedd yn ôl ac ar gyfer gwersylla tymhorol yn 2022.
- 3.2 Mae swyddog coedyddiaeth yr Awdurdod hwn wedi nodi bod gan yr ardal hon Ddynodiad Coetir Hynafol ac os caniateir y cais hwn y byddai'n cael effaith andwyol ar y coetir y tu hwnt i ôl troed y safle datblygu ac y dylid annog pobl i beidio â datblygu o fewn safle dynodedig o'r fath.
- 3.3 Mae arbenigwr amgylcheddol yr ymgeisydd wedi argymhell y dylid cynnig Gwella Bioamrywiaeth ar ffurf plannu coed mewn ardal o laswelltir wedi'i wella ger y coetir presennol.
- 3.4 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd (GAPS) wedi darparu ymateb i'r ymgynghoriad ac wedi gwneud sylw bod yr adeilad hwn o ffurf syml, efallai wedi gwasanaethu fel annedd yn y gorffennol, mae'r potensial ar gyfer gweddillion o dan yr wyneb yn gymharol isel a bydd y gwaith yn arwain at o leiaf colli'r gosodiadau a'r ffitiadau gwreiddiol yn rhannol.
- 3.5 Wrth ddarparu'r sylwadau hyn mae GAPS wedi argymhell bod cofnod ffotograffig o'r adeilad yn cael ei wneud a'i gyflwyno i wasanaethu fel cofnod archif parhaol os rhoddir caniatâd i addasu.
- 3.6 Mae'r Cyngor Cymuned wedi ymateb i ymgynghoriad gan ddatgan nad oes ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cais hwn.
- 3.7 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan ymgynghoreion eraill o'r gymuned leol yn dilyn hysbysiad trwy gyfrwng rhybuddion safle.
- 3.8 Y casgliadau ar y cais hwn yw nad yw'r pryderon dros y cais blaenorol wedi eu goresgyn ac y gallant arwain at un argymhelliad yn unig, sef gwrthod.

4. Casgliadau

- 4.1 Rwyf o'r farn, tra bod yr ymgeisydd wedi mynd peth o'r ffordd i oresgyn methiannau'r ceisiadau blaenorol i addasu ac ymestyn yr adeilad allanol gwledig hwn, mae gwrthdaro sylfaenol a gor-redol yn parhau gyda pholisi CDLIE gan fod gweddillion yr adeilad hwn yn rhy adfeiliedig i fodloni holl feini prawf Polisi 9. Mae'r materion hyn o egwyddor wedi'u cyfleu i'r ymgeisydd mewn nifer o lythyrau cynharach yn ogystal â dau wrthodiad cynllunio, ac nid yw'r naill na'r llall wedi'u hapelio.

- 4.2 Yn ogystal gall y gwaith addasu gael effaith niweidiol ar y coed o amgylch yr adeilad gan arwain at y coed yn mynd yn ansefydlog ac yn cael eu colli. Mae hyn yn golygu bod y cynnig hwn yn groes i bolisi 1 CDLIE.
- 4.2 Hefyd, mae'r ymgeisydd wedi methu darparu tystiolaeth gadarn na fydd unrhyw drosiad yn cael effaith andwyol ar y coed cyfagos sydd wedi eu dynodi fel coetir hynafol.

Papurau Cefndirol ym Mhentwr Dogfennau Rhif 1: Na

ARGYMHELLIAD: GWRTHOD am y rhesymau a ganlyn:

Rhesymau:

1. Oherwydd bod yr adeilad allanol gwledig hwn yn adfail ac nad yw wedi'i adeiladu'n barhaol a sylweddol, heb unrhyw strwythur to neu orchudd sy'n golygu y byddai angen ei ailadeiladu a'i ymestyn yn sylweddol a gallai gael effaith niweidiol ar goed, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â Pholisïau CDLIE DP1 a DP9.

Field of view and location of driveway with gate.


Field of view as per purple line.

Set back 2.4m from kerb edge

New Tree planting

Hedge planting (Native)

Field of view Set back 2.4m from kerb edge



To be planted with native broadleaf trees. Species of local provenance.

Grid ref: SH 796549

Woodland Cottage

Stream crossing

Parking Terram Covered with gravel

Gate to driveway set back 15m from kerb edge

Gravel pathway for pedestrian use.

Driveway to gate Laid with Tarmac incorporating a cross drain to road edge to contain any run off surface water.


0.9m Stone wall, topped with Post and wire for Maximum visibility

Post and wire Fence on top of a 0.9m stone wall to field edge. Clear view with no shrubs or trees


Total area outlined in red 8,365m²

scale = 1:1000 @ A3

Existing Elevations




West




East

Proposed Elevations



Matt gray aluminium windows and door frames



Natural Slate Roof

125mm X 20mm Larch cladding

Craig Glan Conwy

Scale = 1:75 @ A3


July 30, 2020

Graig Glan Conwy Betws Y Coed Conwy


Woodland Cottage

A 02

Existing Elevations





South



North

Proposed Elevations



Craig Glan Conwy


Scale = 1:75 @ A3

July 30, 2020

Graig Glan Conwy Betws Y Coed Conwy




Woodland Cottage

A 01



Existing floorplan

Scale 1:50 @ A3



Craig Glan Conwy

Scale = 1:100 @ A3

July 30, 2020

Graig Glan Conwy Betws Y Coed Conwy

| Woodland Cottage

A 03



Drive way for parking out of sight behind the treeline.

Proposed extension

Craig Glan Conwy

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
– Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.**

Dyddiad: 24-Ion-2024

Cais Rhif: NP5/50/532F

Dyddiad Cofrestru: 27/10/23

Cymuned: Aberdyfi

Cyfeirnod Grid: 261431 295932

Swyddog Achos: Mr David Jones

Lleoliad:

Ganolfan Gwybodaeth Ymwelwyr, Y Cej,
Aberdyfi. LL35 0EE

Ymgeisydd:

Mr. Edward Tudor Jones,
Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Disgrifiad:

Newid drysau allanol a ffenestri i flaen
siopau am ddrysau agor awtomatig newydd,
gosod hysbysfyrddau ar flaen yr adeilad,
adnewyddu rampiau allanol a gosod paneli
solar PV

Crynodeb o'r Argymhelliad:

RHOI caniatâd gydag amodau sy'n ymwneud â:

- Dechrau gweithio o fewn 5 mlynedd.
- Cydymffurfio â chynlluniau a gymeradwywyd.

**Rheswm/Rhesymau yr Adroddwyd am y Cais i'r Pwyllgor:
Cynllun Dirprwyo**

Mae'r cais cynllunio yn cael ei gyflwyno gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac mae'r adeilad sy'n destun y cais hefyd ym mherchnogaeth yr awdurdod.

Dynodiadau / Cyfyngiadau Tir:

O fewn ffin anheddiad.
O fewn Ardal Gadwraeth

Disgrifiad o'r Safle:

Mae'r cynnig yn ymwneud â'r Ganolfan Groeso sydd ym mherchnogaeth ac yn cael ei gweithredu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r Ganolfan Groeso wedi'i lleoli'n ganolog yn yr anheddiad ac yn ardal y ceir de o'r A493. Mae defnyddiau tir sy'n bresennol yma yn bennaf yn ddinesig a masnachol eu natur. Mae'r safle hefyd o fewn yr ardal gadwraeth ddynodedig.

Mae hwn yn adeilad modern unllawr yn bennaf, gyda tho llechi mwynau naturiol ar uchderau amrywiol. Mae mynedfeydd gwydr deuol i'r adeilad sy'n rhoi mynediad o Deras Glandyfi ac ochr yr harbwr i'r cei. Mae arwyddion corfforaethol Parc Cenedlaethol Eryri yn bresennol uwchben y ddwy fynedfa gyhoeddus i'r adeilad; mae yna hefyd arwyddion masnachol yn bresennol ar y rhan honno o'r adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel caffî.

Datblygiad Arfaethedig:

Mae'r cynnig yn golygu nifer o newidiadau ac ychwanegiadau cymharol fân fel a ganlyn:

Bydd y drysau a'r ffenestri pren presennol ar fynedfa ogleddol a deheuol y Ganolfan Groeso yn cael eu disodli gan ddrysau a ffenestri ffrâm alwminiwm. Bydd y rhain yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd sef drysau awtomatig â throthwy lefel. Cynigir dau opsiwn ar y cynlluniau - un ar gyfer drws 1100mm a'r llall ar gyfer drws 1800mm o led. Gofynnir am ganiatâd i ddefnyddio'r naill opsiwn neu'r llall ar y drysau. Byddai'r ardal yn union o flaen y drysau yn cael ei tharmacio gyda sianeli draenio yn cael eu gosod fel rhan o'r gwelliannau hygyrchedd.

Byddai hysbysfwrdd allanol mawr a Hysbysfwrdd Rhyngweithiol Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu gosod ar wal allanol yr adeilad sy'n wynebu Teras Glandyfi.

Byddai nwyddau dŵr glaw alwminiwm o liw du yn cael eu cyfnewid am y nwyddau dŵr glaw UPVC presennol.

Fel rhan o'r cynnig bydd 12 panel solar yn cael eu gosod ar blân deheuol y to llechi presennol a fydd yn darparu 6.5kw o ynni adnewyddadwy.

Mae Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol yn cyd-fynd â'r cais sy'n datgan nad oes gan yr adeilad unrhyw botensial i gefnogi ystlumod sy'n clwydo. Argymhellir mesurau osgoi rhesymol i atal unrhyw effaith yn sgil y datblygiad ar unrhyw adar sy'n nythu. Cynigir gwelliannau bioamrywiaeth hefyd trwy osod pedwar blwch nythu adar.

Polisiâu Cynllun Datblygu:

Cymru'r Dyfodol 2040

Ymddengys nad oes polisiâu perthnasol mewn perthynas â'r cais hwn.

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

- SP A Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiad Cynaliadwy
- DP1 Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
- SP Ff Amgylchedd Hanesyddol
- DP6 Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy
- DP10 Hysbysebion ac Arwyddion

- SP I Twristiaeth
- DP 21 Twristiaeth a Hamdden

Canllawiau Cynllunio Atodol

- CCA 1 Dylunio Cynaliadwy mewn Parciau Cenedlaethol
- CCA 2 Ystyriaethau Datblygu Cyffredinol

Polisi/Canllaw Cenedlaethol:

- Polisi Cynllunio Cymru (PCC), Argraffiad 11 Chwefror 2021
- NCT 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio
- NCT 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol

Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref:	Dim sylwadau wedi eu derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.
Ecoleg y Parc Cenedlaethol	Dim sylwadau wedi eu derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.
Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd	Dim sylwadau wedi eu derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.
CNC	Dim sylw.

Ymateb i Gyhoeddusrwydd:

Rhodddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais ar ffurf rhybudd safle.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw lythyrau o wrthwynebiad/cefnogaeth wedi'u derbyn.

Asesiad:

1. Egwyddor Datblygu

- 1.1. Yn seiliedig ar Bolisi Strategol A, I a DP 21 byddai gwella'r cyfleusterau yn y Ganolfan Groeso yn cyd-fynd â nod y polisi o hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau'r "Rhinweddau Arbennig" trwy gynigion datblygu. Byddai cyflwyno ffynhonnell ynni adnewyddadwy ar yr adeilad a hwyluso hygyrchedd i bawb hefyd yn cyd-fynd ag amcanion y polisïau hyn.

2. Asesiad Cynllunio

2.1. Dyluniad ac Ymddangosiad Allanol

- 2.2. Mae Polisi DP 1 a DP 6 yn berthnasol yma ac ymhlith eu darpariaethau mae gofynion bod cynigion yn cadw a gwella Nodweddion Arbennig a phwrpas y Parc Cenedlaethol drwy sicrhau bod ffurf y datblygiad yn gydnaws â chymeriad yr ardal leol, yn adlewyrchu dyluniad da ac yn cyrraedd gofynion adeiladu cynaliadwy cenedlaethol.
- 2.3. Mae'r cynnig yn ymwneud ag un o'r Canolfannau Croeso a weithredir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r adeilad mewn lleoliad amlwg ar y cei, yn agos i ganolfan fasnachol Aberdyfi. Gan ei fod o fewn ardal gadwraeth, mae gofyniad polisi a statudol bod cynigion datblygu yn cadw a gwella cymeriad ac edrychiad yr ardal.
- 2.4. Mae'r bwriad yn golygu nifer o newidiadau ac ychwanegiadau gweddol fân i'r adeilad sy'n cynnwys gosod drysau alwminiwm o safon uchel a nwyddau dwr glaw. Mae'n faterol y bydd gosod paneli solar yn gwella rhinweddau cynaliadwyedd yr adeilad. Ystyrir y byddai paneli solar o liw a dyluniad priodol yn ychwanegiadau priodol ar do llechi'r adeilad gweddol fodern hwn.
- 2.5. Fel rhan o'r cynigion cynigir dau hysbysfwrdd rhyngweithiol Parc Cenedlaethol Eryri ar wal allanol yr adeilad. Byddai'r arwyddion rhyngweithiol hyn i'w gweld yng nghyd-destun yr arwyddion corfforaethol a masnachol presennol sydd eisoes yn bresennol ar yr adeilad a'r ardal leol yn gyffredinol. Mae'n bosibl bod angen caniatâd hysbysebu ar wahân hefyd ar gyfer y rhan yma o'r bwriad ac argymhellir cynnwys gwybodaeth i'r perwyl hwn gyda'r caniatâd cynllunio.
- 2.6. O ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol hyn, ystyrir bod y cynigion yn bodloni gofynion polisiâu DP1 a DP 6. Ystyrir hefyd y byddai'r cynnig yn gwasanaethu i warchod a gwella'r ardal gadwraeth.

2.7. Materion Eraill

- 2.8. Mae Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol gyda'r cais cynllunio sy'n nodi nad oes unrhyw rywogaethau a warchodir yn bresennol ac mae'n cynnwys mesur lliniaru i atal unrhyw effaith ar adar sy'n nythu. Bydd gwelliannau bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni trwy osod pedwar blwch nythu adar. Tra disgwylir am sylwadau ffurfiol gan Ecoleg y Parc Cenedlaethol, rhagwelir y byddai'r gwelliant i fioamrywiaeth yn cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) o ran darparu enillion bioamrywiaeth net.

3. **Casgliad**

- 3.1 Mae egwyddor y datblygiad yn dderbyniol ar bob agwedd. Mae'r cynigion hefyd yn cyrraedd y safon dylunio ac edrychiad allanol sy'n ofynnol gan bolisi a statud ar yr adeilad cyhoeddus amlwg hwn o fewn ardal cadwraeth.

Papurau Cefndirol ym Mhentwr Dogfennau Rhif 1: Nac ydi

ARGYMHELLIAD: RHOI caniatâd gyda'r amodau a ganlyn:

1. Rhaid cychwyn ar y datblygiad a ganiateir drwy hyn cyn pen PUM mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.
2. Rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn unol â'r cynlluniau cymeradwy a ganlyn:

Lleoliad SB1+02 00
Presennol P1+01 00
Arfaethedig B1+02 04
Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol (26/09/2023) Cambrian Ecology Ltd
